**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

# Adroddiad ar y Darpariaethau Is-ddeddfwriaeth yn y Mesur arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru)

Tachwedd 2009

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

I gael rhagor o gopïau caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:
Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8154
Ffacs: 029 2089 8021
Ebost: Legislation.Committee@wales.gsi.gov.uk

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

# Adroddiad ar y Darpariaethau Is-ddeddfwriaeth yn y Mesur arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru)

Tachwedd 2009

# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Mae'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn ystyried agweddau technegol ar yr holl offerynnau statudol neu offerynnau statudol drafft a wneir gan Weinidogion Cymru gan gyflwyno adroddiadau sy'n nodi a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r offeryn neu'r offeryn drafft ar unrhyw un o'r seiliau a restrir yn Rheol Sefydlog 15.2. Caiff y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth hefyd ymgymryd â rhywfaint o waith craffu ar bolisi Mesurau'r Cynulliad ond ni chaiff gwestiynu'r polisi ei hun.

Yn ogystal â hyn, caiff y Pwyllgor gyflwyno adroddiadau sy'n ymwneud â'r materion a nodir yn Rheol Sefydlog 15.3 neu 15.6.

**Pwerau**

Cafodd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ei sefydlu ym mis Mehefin 2007. Mae ei bwerau wedi'u nodi yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn benodol Rheol Sefydlog 15. Mae'r rhain ar gael yn www.cynulliadcymru.org

**Aelodau'r Pwyllgor**

| *Yr Aelod o'r Pwyllgor* | *Plaid* | *Etholaeth neu Ranbarth* |
|---|---|---|
| Janet Ryder | Plaid Cymru | Gogledd Cymru |
| Alun Davies | Llafur | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Mike German | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Dwyrain De Cymru |
| William Graham | Ceidwadwyr Cymru | Dwyrain De Cymru |
| Joyce Watson | Llafur | Canolbarth a Gorllewin Cymru |

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru wedi'u rhestru isod, yn y drefn y gwelir nhw yn yr Adroddiad hwn. Gweler tudalennau perthnasol yr adroddiad er mwyn gweld y dystiolaeth ategol a'r casgliadau:

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid mabwysiadu'r egwyddor mai'r weithdrefn gadarnhaol a ddylai gael ei mabwysiadu pan fydd Gweinidogion Cymru yn ceisio pwerau i roi newid polisi arwyddocaol ar waith drwy reoliadau. **(tudalen 7)**

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid cywiro'r cydbwysedd rhwng y materion yr ymdrinnir â nhw ar wyneb y Mesur (neu Fesur diwygio) a'r rhai y caniateir ymdrin â nhw drwy reoliadau neu orchmynion. Gan hynny, dylai'r pwerau Harri VIII i ddiwygio'r Mesur hwn drwy orchymyn a geir yn adrannau 3(3), 5(4) a 6(3) ddod o dan uwch-weithdrefn gadarnhaol a fyddai'n golygu bod gofyn gosod drafft ymgynghori gerbron y Cynulliad cyn i orchymyn gael ei wneud. Byddai hynny'n adlewyrchu mor bwysig yw'r darpariaethau ac yn cynnig cyfle ar gyfer ymgynghori a chraffu sylweddol cyn i'r Mesur gael ei ddiwygio. Mae un enghraifft ddiweddar o'r weithdrefn hon i'w gweld yn y Mesur Addysg a gymeradwywyd yn ddiweddar gan y Cynulliad. **(tudalen 8)**

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai dynodi personau sy'n cyflawni gweithgaredd cynradd o dan adran 4(4) ddod o dan weithdrefn gadarnhaol hefyd, yn debyg i ddynodi personau sy'n cyflawni gweithgaredd eilaidd o dan adran 4(5) sy'n dod o dan weithdrefn gadarnhaol. **(tudalen 9)**

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid ymdrin â chyflwyno datganiadau o dan adran 8 drwy reoliadau, a fyddai'n dod o dan weithdrefn Cynulliad briodol yn hytrach na thrwy gyfarwyddiadau. **(tudalen 9)**

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu darpariaethau Adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac ystyried a oes angen cymhwysedd gweithredol mwy cyffredinol, yn debyg i gymhwysedd gweithredol Gweinidogion yr Alban. **(tudalen 10)**

# Adroddiad ar y Darpariaethau Is-ddeddfwriaeth yn y Mesur arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru)

## Rheolau Sefydlog

1. Mae gan y Pwyllgor y pwerau canlynol o dan y Rheolau Sefydlog:

- Mae Rheol Sefydlog 15.6 (ii) yn datgan y caiff y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ystyried a chyflwyno adroddiad ar 'pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig …..sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru'.
- Er nad yw cyflwyno sylwadau ar ragoriaethau'r cynnig y bwriedir i'r Mesur arfaethedig ei roi ar waith yn rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor, mae Rheol Sefydlog 15.6(v) yn datgan y caiff y Pwyllgor ystyried a chyflwyno adroddiad ar 'unrhyw fater deddfwriaethol gyffredinol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru'.

2. Diben yr adroddiad hwn yw bwydo trafodaeth Cyfnod 1 y Cynulliad ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a'r cyfnodau deddfu dilynol.

## Yr Ystyriaeth

3. Ar 11 Tachwedd 2009 ystyriodd y Pwyllgor y Mesur arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru) gan gymryd tystiolaeth gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Elin Jones AC.

## Y Cefndir

4. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Mesur arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru) i'r Cynulliad ar 19 Hydref 2009. Mae'r Mesur arfaethedig wedi'i gyfeirio at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 iddo gyflwyno adroddiad arno erbyn 18 Rhagfyr 2009.

5. Mae gan y Mesur arfaethedig bwerau arwyddocaol ar gyfer is-ddeddfwriaeth i'w gwneud gan Weinidogion Cymru. Mae'r rhain yn cael eu hesbonio yn Rhan 5 o'r Memorandwm Esboniadol, a osodwyd gyda'r Mesur arfaethedig, ac yn y Sylwebaeth ar yr Adrannau a geir ar ddiwedd y Memorandwm hwnnw. Yn wahanol i'r Mesurau blaenorol y mae'r Cynulliad wedi'u hystyried, dydy'r Mesur hwn ddim yn diwygio deddfau Seneddol presennol; yn hytrach mae'n cynnwys fframwaith hunangynhwysol ar gyfer codi ardoll mewn perthynas â'r diwydiant cig coch.

## Pwerau a Gweithdrefnau ar gyfer Gwneud Is-ddeddfwriaeth

6. Gellir crynhoi'r darpariaethau gweithredol fel a ganlyn –

7. Mae **Adran 2** yn nodi amcanion y Mesur arfaethedig.

8. Mae **Adran 3** yn datgan y caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw beth y maen nhw o'r farn ei fod yn briodol er mwyn hybu'r amcanion sydd wedi'u nodi yn adran 2. Mae hyn yn dilyn y ffurfeiriad a ddefnyddiwyd yn adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn perthynas â hybu llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol; ac yn adran 61 o'r Ddeddf honno mewn perthynas â hybu amryw o agweddau ar dreftadaeth Cymru. Mae is-adran (2) yn caniatáu i Weinidogion Cymru arfer unrhyw rai o'r swyddogaethau sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 1 ac i sefydlu cronfa wrth gefn. Er hynny, mae is-adran (3) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio Atodlen 1 drwy orchymyn. Yn unol â'r confensiwn arferol, byddai hyn yn dod o dan y weithdrefn gadarnhaol.

9. Mae **Adran 4** yn caniatáu i Weinidogion Cymru godi ardoll i dalu am wariant a dynnir mewn perthynas â'r diwydiant. Caniateir i'r ardoll gael ei gosod ar gigyddwyr, mewnforwyr, neu bersonau sy'n cyflawni gweithgaredd cynradd neu weithgaredd eilaidd mewn perthynas â gwartheg, defaid neu foch, os ydyn nhw wedi'u dynodi gan Weinidogion Cymru. Byddai'r dynodi'n cael ei wneud drwy orchymyn, a fyddai'n dod o dan y weithdrefn negyddol, ac eithrio yn achos personau sy'n cyflawni gweithgaredd eilaidd, pan fyddai gweithdrefn gadarnhaol yn gymwys.

10. Mae **Adran 5** yn darparu bod rhaid i unrhyw ardoll ar gigyddwyr neu fewnforwyr gael ei gyfrifo yn unol ag Atodlen 2. Er hynny, byddai is-adran (4) yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio'r Atodlen honno**.** Yn unol â'r confensiwn arferol, byddai hyn yn dod o dan y weithdrefn gadarnhaol. Byddai is-adran (3) hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch gweithdrefnau sy'n ymwneud â gosod ardollau, eu talu a'u casglu.

11. Byddai **Adran 6** yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud darpariaeth helaeth ynghylch gosod ardoll ar bersonau a fyddai'n cyflawni gweithgaredd cynradd dynodedig neu weithgaredd eilaidd dynodedig, gan gynnwys gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r Mesur hwn sy'n ymddangos yn angenrheidiol neu'n hwylus (is-adran (3)). Yn unol â'r confensiwn arferol, byddai hyn yn dod o dan y weithdrefn gadarnhaol.

12. Byddai **Adran 7** yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddirprwyo unrhyw rai o'u swyddogaethau, heblaw gwneud rheoliadau, gorchmynion neu gyfarwyddiadau.

13. Mae **Adran 8** yn ymdrin â gwneud datganiadau niferoedd ac amcangyfrifon, ac mae'n cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i'w gwneud yn ofynnol i ddatganiad gael ei gyflwyno. Mae hefyd yn darparu ar gyfer gwneud amcangyfrifon yn niffyg datganiad, ac yn creu tramgwydd o fethu â chyflwyno datganiad, a rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol.

14. Mae **Adran 9** yn ei gwneud yn ofynnol i gofnodion gael eu cadw a'u dangos.

15. Mae **Adran 10** yn caniatáu i Weinidogion Cymru benodi "person penodedig" i helpu i roi'r ardoll ar waith.

16. Mae **Adran 11** yn darparu i ynad heddwch ddyroddi gwarant i berson penodedig o dan amgylchiadau penodol i fynd i mewn i fangre, gweld dogfennau a'u copïo neu fynd â nhw oddi yno. Mae hefyd yn creu tramgwydd o rwystro arfer y pwerau hynny.

17. Mae **Adran 12** yn cynnwys darpariaethau ynglŷn â chyflawni tramgwyddau gan gyrff neu bartneriaethau.

18. Mae **Adran 13** yn pennu terfynau amser ar gyfer dwyn achos o dan y Mesur.

19. Mae **Adran 14** yn nodi diffiniadau o dermau sy'n cael eu defnyddio yn y Mesur.

20. Mae **Adran 15** yn darparu ar gyfer diddymu Bwrdd Ardollau Cymru a sefydlwyd o dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.

21. Mae **Adran 16** yn cynnwys darpariaethau ynghylch rhoi cyfarwyddiadau gan Weinidogion Cymru o dan adran 8.

22. Mae **Adran 17** yn cynnwys y darpariaethau safonol ynghylch gwneud gorchmynion a rheoliadau. Mae'r rhain yn cynnwys y pŵer i wneud darpariaethau gwahanol ar gyfer amgylchiadau gwahanol, i wneud darpariaethau cyffredinol neu benodol, ac i wneud darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol a throsiannol. Mae hefyd yn pennu'r weithdrefn sy'n gymwys i offerynnau statudol sy'n cael eu gwneud o dan adrannau eraill y Mesur.

23. Mae **Adran 18** yn cynnwys y pŵer arferol i gychwyn darpariaethau sylweddol y Mesur drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru, na fyddai'r un weithdrefn Cynulliad yn gymwys iddo.

24. Mae **Adran 19** yn nodi enw byr y Mesur.

25. Mae **Atodlen 1** yn nodi'r swyddogaethau y caiff Gweinidogion Cymru eu harfer, ac y caniateir iddo gael eu diwygio ganddyn nhw drwy orchymyn a wneir o dan adran 3(3).

26. Mae **Atodlen 2** yn cynnwys darpariaethau manwl ynghylch cyfrifo a thalu'r ardoll, a chaniateir iddo gael ei diwygio gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn a wneir o dan adran 5(4).

## Y materion a godwyd yn y dystiolaeth ac argymhellion y Pwyllgor

27. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod y Mesur arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru) yn cael ei ddisgwyl a'i groesawu gan y diwydiant. Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi bod angen y Mesur arfaethedig; er hynny, mae'r Aelodau wedi dod i'r casgliad bod cydbwysedd anghywir wedi'i daro rhwng defnyddio'r gweithdrefnau negyddol a chadarnhaol, yn enwedig lle byddai'r weithdrefn negyddol yn cael ei defnyddio i wneud rheoliadau a fyddai'n rhoi newidiadau

polisi ar waith.  Oherwydd hynny, mae sawl achos yn y Mesur arfaethedig lle nad yw'r Pwyllgor yn credu bod achos argyhoeddiadol wedi'i wneud dros ddefnyddio'r weithdrefn negyddol.  Mae'r Pwyllgor yn pryderu na fyddai caniatáu i Weinidogion Cymru grynhoi pwerau i wneud rheoliadau o dan y weithdrefn negyddol, heb fod achos cryf dros wneud hynny, yn cynnig digon o gyfle i'r ddeddfwrfa wneud gwaith craffu.

**Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid mabwysiadu'r egwyddor mai'r weithdrefn gadarnhaol a ddylai gael ei mabwysiadu pan fydd Gweinidogion Cymru yn ceisio pwerau i roi newid polisi arwyddocaol ar waith drwy reoliadau.**

28. Nododd y Pwyllgor fod y Mesur arfaethedig yn cynnwys darpariaeth helaeth ar gyfer is-ddeddfwriaeth a fydd yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru u ddiwygio nifer o feysydd yn y Mesur yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys y pŵer i ddiwygio Atodlen 1 drwy orchymyn a wneir o dan adran 3(3), a'r pŵer i ddiwygio Atodlen 2 drwy orchymyn a wneir o dan adrannau 5(4) neu 6(3).  Mae'r rhain yn cael eu hadnabod fel pwerau Henry VIII i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth.  Mae'r pŵer yn adran 6(3) yn mynd mor bell â chaniatáu i Weinidogion Cymru "wneud unrhyw ddiwygiadau i'r Mesur hwn sy'n ymddangos … yn angenrheidiol neu'n hwylus … mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaethau a wneir o dan is-adran (2)".   Dylai cywirdeb y cydbwysedd rhwng y materion yr ymdrinnir â nhw ar wyneb y Mesur a'r rhai y caniateir ymdrin â nhw drwy reoliadau neu orchmynion gael ei gywiro.

**Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid cywiro'r cydbwysedd rhwng y materion yr ymdrinnir â nhw ar wyneb y Mesur (neu Fesur diwygio) a'r rhai y caniateir ymdrin â nhw drwy reoliadau neu orchmynion.  Gan hynny, dylai'r pwerau Harri VIII i ddiwygio'r Mesur hwn drwy orchymyn a geir yn adrannau 3(3), 5(4) a 6(3) ddod o dan uwch-weithdrefn gadarnhaol a fyddai'n golygu bod gofyn gosod drafft ymgynghori gerbron y Cynulliad cyn i orchymyn gael ei wneud.  Byddai hynny'n adlewyrchu mor bwysig yw'r darpariaethau ac yn cynnig cyfle ar gyfer ymgynghori a chraffu sylweddol cyn i'r Mesur gael ei ddiwygio.  Mae un enghraifft ddiweddar o'r weithdrefn hon i'w gweld yn y Mesur Addysg a gymeradwywyd yn ddiweddar gan y Cynulliad.**

29. Mae Adran 4 o'r Mesur yn ymdrin â dynodi personau sy'n agored i gael ardoll wedi'i gosod arnyn nhw.  Caniateir i'r rhai sy'n cyflawni gweithgaredd cynradd gael eu dynodi drwy orchymyn a wneir o dan adran 4(4), a fyddai'n dod o dan weithdrefn negyddol, tra byddai'r rhai sy'n cyflawni gweithgaredd eilaidd yn cael eu dynodi drwy orchymyn a fyddai'n dod o dan weithdrefn gadarnhaol.  Esboniodd y Gweinidog y gweithdrefnau gwahanol fel a ganlyn:

> "…Currently the levy is charged on the producer and the slaughterer, but is collected by the slaughterer. The provisions of the proposed Meesure mean that the collection could be changed and undertaken either by the producer or a person involved in secondary activity, as I think it says, within the red meat sector. If it is collected by the producer rather than the slaughterer, then that does not financially affect the producer, in that the producer aid the levy anyway. Therefore we have decided that that is not a significant change, and only affects collection. Welsh Ministers could undertake that kind of change by statutory instrument subject to negative resolution. Any introduction of collection by a person involved in a secondary activity would require further scrutiny and debate, I believe, because it is completely new, and therefore any such Order would be subject to affirmative resolution…"

30. Barn y Pwyllgor yw bod y gwahaniaeth hwn braidd yn artiffisial, ac mae'n credu mai'r weithdrefn gadarnhaol a ddylai gael ei mabwysiadu ar gyfer pob gorchymyn dynodi.

**Argymhelliad 3.  Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai dynodi personau sy'n cyflawni gweithgaredd cynradd o dan adran 4(4) ddod o dan weithdrefn gadarnhaol hefyd, yn debyg i ddynodi personau sy'n cyflawni gweithgaredd eilaidd o dan adran 4(5) sy'n dod o dan weithdrefn gadarnhaol.**

31. Mae Adran 8 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddyroddi cyfarwyddiadau ynghylch cyflwyno datganiadau.  Gofynnodd y Pwyllgor pam mae'r materion hyn i gael eu trafod drwy gyfarwyddiadau (a all fod yn ddeddfwriaeth sydd heb ei gwneud drwy offeryn statudol), yn hytrach na thrwy reoliadau, a fyddai'n dod o dan weithdrefn Cynulliad briodol.

**Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid ymdrin â chyflwyno datganiadau o dan adran 8 drwy reoliadau, a fyddai'n dod o dan weithdrefn Cynulliad briodol yn hytrach na thrwy gyfarwyddiadau.**

32. Mae'r Pwyllgor yn fodlon na ddylai'r un weithdrefn Cynulliad fod yn gymwys yn achos gorchmynion cychwyn a wneir o dan adran 18(2), a hynny yn unol â'r arferion deddfu arferol.

33. Ystyriodd yr Aelodau hefyd y pŵer eang iawn sydd wedi'i gynnwys yn adran 3(1) a fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru "wneud unrhyw beth y maent yn ystyried ei fod yn briodol er mwyn hybu'r amcanion" sydd wedi'u nodi yn adran 2. Esboniodd y Gweinidog a'i swyddogion y dylai hyn gael ei ystyried yng nghyd-destun yr amcanion hynny. Cyfeirir at y cyd-destun mwy cyffredinol ym mharagraff 8 uchod. Mae adran 60(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu bod y pŵer yn yr adran honno yn cynnwys pŵer i wneud trefniadau neu gytundebau; i gydweithredu, hwyluso neu gydlynu gweithgareddau; i arfer swyddogaethau ar ran person arall ac i ddarparu staff, nwyddau, gwasanaethau neu lety i unrhyw berson.

34. Mae'r angen am bwerau cyffredinol o'r fath yn adlewyrchiad ar setliad datganoli Cymru. Darparodd adran 53 o Ddeddf yr Alban 1998 drosglwyddiad cyffredinol o swyddogaethau rhagorfraint a swyddogaethau gweithredol eraill, yn ogystal â'r rhai a roddwyd i Weinidogion y Goron o dan ddeddfwriaeth flaenorol, ar yr amod eu bod yn dod o fewn y cymhwysedd datganoledig. Ar y llaw arall, darparodd dwy Ddeddf Llywodraeth Cymru (adran 58 o Ddeddf 2006) ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau penodol, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddechrau ac erbyn hyn i Weinidogion Cymru. Gan hynny, chafodd y cymhwysydd gweithredol cyffredinol a gafodd Gweinidogion yr Alban mo'i rhoi i Weinidogion Cymru, ac felly mae'n rhaid dibynnu ar bwerau cyffredinol mewn deddfiadau penodol, megis adrannau 60 a 61 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 neu adran 3(1) o'r Mesur hwn ar gyfer penderfyniadau gweithredol rhigolaidd na fyddai angen awdurdod penodol ar eu cyfer yn yr Alban.

**Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu darpariaethau Adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac ystyried a oes angen cymhwysedd**

**gweithredol mwy cyffredinol, yn debyg i gymhwysedd gweithredol Gweinidogion yr Alban.**

35. Bydd y Pwyllgor yn pwyso a mesur y pwynt hwn ymhellach fel rhan o'i ymchwiliad i ddatblygiad Atodlen 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## Y Tystion

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i’r Pwyllgor ar y dyddiadau sydd wedi’u nodi isod. Mae trawsgrifiadau llawn o’r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael i’w gweld yn www.cynulliadcymru.org

*11 Tachwedd 2009*

| | |
|---|---|
| Elin Jones AC | Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Llywodraeth Cymru |
| Neil Howard | Pennaeth Rheoli Cynlluniau, Llywodraeth Cymru |
| Dorian Brunt | Cynghorydd Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru |